ATODLEN 4

OFFERYNNAU STATUDOL Y DU

### Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999

**79.**—(1) Mae rheoliad 2(1) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y diffiniad o "consultation bodies", yn is-baragraff (b)—

(a) ym mharagraff (ii), cyn "and English Nature" mewnosoder ", the Environment Agency";

(b) ym mharagraff (iii), yn lle "the Countryside Council for Wales" rhodder "the Natural Resources Body for Wales";

(c) hepgorer paragraff (iv).

(3) Yn y diffiniad o "sensitive area", yn lle is-baragraff (h) rhodder—

"(h) an area of outstanding natural beauty designated as such by an order made—

(i) under section 87 (designation of areas of outstanding natural beauty) of the National Parks and Access to the Countryside Act 1949; or

(ii) under section 82 (designation of areas) of the Countryside and Rights of Way Act 2000;".

(**1**) O.S. 1999/293 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1999/416, O.S. 2000/2867, O.S. 2005/1806 (Cy. 138), O.S. 2006/1282, O.S. 2006/3099 (Cy. 283), O.S. 2006/3295, O.S. 2007/2610 (Cy. 221), O.S. 2008/2335 (Cy. 198), O.S. 2010/675, O.S. 2011/988, O.S. 2011/1043, O.S. 2011/2043; addaswyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p. 37), adran 93, Atodlen 15, paragraff 17, O.S. 2008/1556.